

Myfyriwr yr Academi Arweinyddiaeth Gymunedol 2016/17:


Un o fyfyrwyr ym mlwyddyn gyntaf yr Academi Arweinyddiaeth Gymunedol yn ystod 2016 - 2017 oedd Caryl Griffiths. Ymgeisiodd Caryl am le ar y cwrs gyda'r bwriad o wneud gwahaniaeth yn ei chymdogaeth drwy roi cyfle i blant yr ardal ddatblygu eu doniau. Ym mis Mehefin 2017, cychwynnwyd côr 'Plant y Bryn' gydag ymarferion wythnosol yn Ysgol T Llew Jones, Brynhoffnant. Wrth fyfyrio ar ei chyfnod gyda'r Academi Arweinyddiaeth Gymunedol, dyma oedd gan Caryl i'w ddweud:



Caryl Griffiths



"Ar ôl dychwelyd i'm cynefin yn Llangrannog ar ôl treulio tair mlynedd o fod yn fyfyrwraig cerddoriaeth ac yn gynorthwydd addysgu yn Llundain y peth wnaeth sefyll allan mwyaf i mi tra roeddwn yno, oedd y cyfleoedd anhygoel roedd y plant a'r ieuenctid yn eu derbyn ar stepen eu drws. Teimlaf, er cefais addysg a chyfleodd gwych ar hyd fy mhentyndod cynnar ym mhlwyf Penbryn, roeddwn wedi gorfod teithio o leiaf hanner awr er mwyn derbyn gwersi, e.e. telyn yn Aberystwyth, côr yng Nghastell Newydd Emlyn a chanu unigol yn Sir Benfro. Felly dyma oedd y prif rheswm dros fy nghais i fod yn myfyrwraig ar y cwrs AAG - roeddwn eisiau gwneud gwahaniaeth yn fy nghymdogaeth i a rhoi y cyfle i'n plant ni i ddatblygu eu hunain. Wrth dderbyn cymorth a llwyth o wybodaeth angenrheidiol o'r amryw o fentoriaid profiadol oedd yn ein helpu ni ar hyd ein taith ar y cwrs AAG, roeddwn yn hynod gyffrous o allu ddweud fy mod wedi gallu cyrraedd fy nôd - cychwynnodd Côr Plant y Bryn ar yr 20fed o Fehefin, 2017. Roedd bod yn myfyrwraig ar y cwrs Academi Arweinyddiaeth Gymunedol wir wedi bod yn agoriad llygad a ddysgais cymaint wrth gwneud fy mhrosiect. Ond y peth ddysgais mwyaf o'r holl brofiad - peidiwch aros i neb arall gwneud y gwahaniaeth i chi eisiau gweld yn eich cymdogaeth chi, peidiwch byth meddwl eich bod chi'n rhy ifanc.



"Gwnewch y gwahaniaeth eich hunan - EWCH AMDANI!"